Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN01:

- **Gwastraff trefol cymysg (Gwastraff Sachau Du) na ellir ei ailgylchu**

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 06/03/2026 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN01<br>Gwastraff na ellir ei ailgylchu (Sachau Du) | |
|---|---|
| **Lleoliad Cynhyrchu** | Amrywiol |
| **EWC** | 20 03 01 |
| **Math** | AN: Ddim yn beryglus o gwbl |
| **Dull gwaredu** | Cyfleuster Troi Ynni yn Wastraff (EFW) |
| **Math o Fin/Bag** | Bin cwad/deuol - sach bin ddu |

## Gofynion y Ddyletswydd Gofal

**20 03 01** – Gwastraff trefol cymysg AN (Ddim yn beryglus o gwbl)

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau i'r lefel isaf bosib swm y gwastraff a anfonir ar gyfer ynni o waredu gwastraff. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei wahanu yn y tarddle a'i waredu drwy'r ffrwd wastraff gywir. Felly dylai gwastraff trefol cyffredinol fod yn opsiwn olaf ar gyfer unrhyw wastraff na ellir ei osgoi neu ei ailgylchu yn hwylus fel arall.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i leihau a gwahanu ei gwastraff yn ei darddle a chanolbwyntio ar wahanu ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigion, bwyd a gwydr. Mae gwahanu deunyddiau'n gywir yn eu tarddle'n gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd yn glynu wrth Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 a Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023. Mae'r Rheoliadau'n nodi bod deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr a bwyd yn gorfod cael eu casglu ar wahân i'w gilydd ac ar wahân i wastraff gweddilliol. Diben hyn yw gwella ansawdd y deunydd a ailgylchir a'r swm sy'n cael ei ailgylchu, gan gefnogi'r economi gylchol a lleihau'r gwastraff sy'n cael ei dirlenwi/losgi.

**Sylwer**: Er nad yw'n cael ei ystyried yn beryglus, mae'n ofyniad cyfreithiol dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus i wahanu gwastraff peryglus oddi wrth wastraff nad yw'n beryglus i sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddosbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy'r ffrwd gwastraff trefol cyffredinol (sachau du) arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Gallai gwastraff na ellir ei ailgylchu (sachau du) gynnwys yr eitemau canlynol na ellir eu hailgylchu, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain:

- rholyn papur glas sydd wedi'i ddefnyddio
- tywelion papur sychu dwylo
- Plastigion na ellir eu hailgylchu ar hyn o bryd
- eitemau rwber amrywiol bach e.e. rwberi
- tameidiau o ffabrig/llinyn
- cartonau cwyrog
- papur neu gardbord sydd wedi'i halogi gan fwyd

## Eitemau

Rhaid gwaredu gwastraff na ellir ei ailgylchu dim ond yn y biniau penodol ar gyfer sachau du am wastraff na ellir ei ailgylchu (fel arfer yn rhan o finiau cwad/deuol safonol y Brifysgol)

Sylwer: Os nad ydych yn gwybod beth yw cyfansoddiad deunydd a/neu os yw wedi'i halogi, e-bostiwch y tîm Cynaliadwyedd (**estates-waste@abertawe.ac.uk**) am arweiniad a mwy o fanylion.

**Peidiwch byth â:**

(a) gwaredu nwyddau y gellir eu hailgylchu yn y bin (sachau du) ar gyfer deunydd na ellir ei ailgylchu - mae'n dargyfeirio deunyddiau gwerthfawr y gellir eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu ac mae opsiynau eraill ar gael

(b) gwaredu unrhyw hylifau yn y bin ar gyfer deunydd na ellir ei ailgylchu - mae opsiynau eraill ar gael

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Biniau Mewnol

Dim ond biniau cwad/ deuol â sachau du y dylid eu defnyddio i waredu gwastraff cyffredinol. Bydd yr holl gynwysyddion wedi'u labelu fel "ni ellir ei ailgylchu". **Ni ddylai cynwysyddion personol/dan y ddesg gael eu defnyddio mewn swyddfeydd gan fod hyn yn rhwystro ailgylchu deunyddiau ac yn costio mwy.**



Ffigwr 1 - bin "cwad" mewnol Prifysgol Abertawe

### Storio Allanol

Dim ond biniau cwad/ deuol y dylid eu defnyddio i waredu gwastraff cyffredinol. Bydd yr holl gynwysyddion wedi'u labelu fel "Gwastraff Cyffredinol" neu "Ni ellir ei ailgylchu". Ni ddylid defnyddio biniau eraill ar gyfer eitemau rhydd.






Ffigwr 2 - bin "cwad" allanol Prifysgol Abertawe a bin contractwr Euro 1100l allanol

Mae sachau du a gesglir yn cael eu gosod yn y biniau pwrpasol mwy (a ddarperir gan y contractwr rheoli gwastraff), a geir mewn ardaloedd penodol ar draws y Brifysgol.

### Lleoliadau a Gwybodaeth am Ardaloedd Gwastraff Allanol

**Campws y Bae:**

- Yr Iard Gwasanaeth
- Llyfrgell y Bae
- Y Twyni
- Adeilad Gogleddol Peirianneg

**Campws Singleton:**

- Keir Hardie*
- Y Llyfrgell a'r Ganolfan Wybodaeth
- Tŵr Faraday*
- Talbot
- Grove*
- Tŷ'r Undeb
- Preseli*
- Langland*
- ILS1*
- Llyr

*Mae biniau Euro 1100L allanol ar gyfer yr ardaloedd hyn bellach yn cael eu storio mewn unedau wedi'u gorchuddio dan glo:



Ffigwr 3 - Campws Singleton: Ardaloedd wedi'u Gorchuddio ar gyfer biniau Euro 1100L Allanol

Os oes angen, gallwch gael côd mynediad i'r ardaloedd hyn ar gais drwy e-bostio estates-waste@abertawe.ac.uk

**Rhowch wybod am unrhyw ddifrod i'r ardaloedd hyn neu broblemau mynediad cyn gynted â phosibl drwy e-bostio Desg Gymorth Ystadau**

## Cost Gwaredu

Mae cost gwaredu gwastraff na ellir ei ailgylchu'n cael ei chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol. Nid oes cost uniongyrchol i unigolion nac adrannau. Serch hynny, gall pawb wneud gwahaniaeth i leihau costau ariannol ac amgylcheddol sylweddol y gwastraff hwn na ellir ei ailgylchu a chyfrannu at darged y Brifysgol o gyflawni cyfradd o 75% o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd Troi Ynni yn Wastraff erbyn 2031. Mae gwastraff na ellir ei ailgylchu (sachau du) yn cael ei waredu drwy gyfleuster Ynni o Wastraff. Felly, drwy osgoi'r gwastraff hwn drwy ailddefnyddio neu ailgylchu, gallwch wneud gwahaniaeth mawr i gynaliadwyedd amgylcheddol ac ariannol y campws.

## Labelu

Gweler y templed

**Am ragor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk**


non recyclable
ni ellir ei ailgylchu